

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu
Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn ar gyfer y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig gan y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Materion Gwledig , ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2025.

Huw Irranca-Davies AS

**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig**

12 Chwefror 2025

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau y DU ("ETS") gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y Prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, i annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau mewn ffordd gost-effeithiol. Fe'i lluniwyd ar y cyd gan Lywodraethau'r DU, yr Alban, Cymru, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac Awdurdod yr ETS (sy'n cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon) fydd yn ei lywodraethu. Mae'r Cynllun yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr i leihau allyriadau yng Nghymru. Ers 1 Ionawr 2021, mae'r ETS wedi cymryd lle System Masnachu Allyriadau'r UE.
- 1.2 Mae'r ETS yn cymell ymdrechion i ddatgarboneiddio trwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr brynu lwfansau ar sail eu hallyriadau carbon. Mae gofyn i gyfranogwyr fonitro, adrodd ar ac ildio lwfansau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae gweithredwyr sy'n cymryd rhan sydd mewn perygl o ddadleoli carbon¹ yn cael nifer penodol o lwfansau ETS am ddim, i reoli effaith pris carbon arnynt ac i sicrhau nad yw'r diwydiant domestig yn dioddef anfantais oherwydd mewnforyn sydd wedi talu prisiau is am eu carbon. Mae cyfranogwyr yn cael prynu hefyd lwfansau allyriadau mewn ocsynau ac mewn marchnadoedd eilaidd.
- 1.3 Mae gan y cynllun ddau gyfnod dyrannu, 2021-2025 a 2026-2030, lle cyfrifir y 'dyraniad am ddim' ("FA") a'i roi i weithredwyr cymwys.
- 1.4 Gellir categorïddio gweithfeydd cyfranogwyr fel gweithfeydd Allyrru Bach ac Ysbytai (Hospital and Small Emitters "HSE") neu weithfeydd Allyrru Bach Iawn (Ultra-Small Emitters "USE"), os ydynt naill ai'n darparu gwasanaethau i ysbytai neu'n weithfeydd sy'n allyrru llai na 25,000 a 2,500 tonnall yn y drefn honno o garbon deuocsid cyfwerth (CO₂eq) y flwyddyn. Nid oes gofyn i weithfeydd sydd â statws HSE neu USE ildio lwfansau sy'n cyfateb i'w hallyriadau ond gofynnir iddynt yn hytrach gadw eu hallyriadau o dan lefel benodol.
- 1.5 Ers i'r cynllun ddechrau yn 2021 mae Awdurdod yr ETS ("yr Awdurdod") wedi bod yn pwysu a mesur sut i ddatblygu'r cynllun ymhellach. Ym mis Rhagfyr 2023, agorodd yr Awdurdod ymgynghoriad 12 wythnos o'r enw *"UK Emissions Trading Scheme: free allocation review"*² a edrychodd ar yr

¹ 'Carbon wedi'i ddadleoli' yw'r allyriadau a gynhyrchir pan symudir safle cynhyrchu o un wlad i wlad arall am fod lefel yr ymdrech i ddatgarboneiddio trwy brisio carbon a rheoliadau hinsawdd yn wahanol.

² Mae hyn yn cyfeirio at yr ymgynghoriad Free Allocation Review ym mis Rhagfyr 2023 <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review> ac ymgynghoriad interim Rhagfyr 2024 Free Allocation Review Carbon Leakage,

opsiynau i dargedu'n well y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ac i sicrhau bod y Dyraniad Lwfansau Am Ddim sy'n cwrdd â'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei ddosbarthu'n deg.

- 1.6 Agwedd allweddol ar ymgynghoriad 2023 oedd edrych sut yr oedd y Rhestr Dadleoli Carbon (CLL) yn cael ei chyfrif, er mwyn ei gwneud yn fwy perthnasol i gyd-destun y DU. Mae'r CLL yn nodi sectorau y bernir bod perygl iddynt ddadleoli carbon ac effeithio ar lefelau'r Dyraniadau am Ddim a rennir. Roedd gofyniad i ymgynghori ar hyn eto er mwyn llunio cynigion mwy penodol i randdeiliaid ar gyfer newid y CLL nag a gafwyd yn ymgynghoriad 2023, a'r nod yw ei newid yn 2026. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal yr ymgynghoriad dilynol ar y CLL ym mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, gan fod y cynigion mor gymhleth, a bod angen ystyried sut i'w halinio â'r penderfyniad a gyhoeddwyd i roi Mekanwaith Addasu Ffiniau Carbon ³ ("CBAM") ar waith yn 2027, penderfynwyd gohirio'r newidiadau tan at 2027. Mae hyn yn golygu bod angen estyn cyfnod dyrannu'r Dyraniadau am Ddim sydd yn y ddeddfwriaeth am flwyddyn ychwanegol i gynnwys 2026.
- 1.7 Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2025 ("yr Offeryn hwn") yn symud dyddiad cychwyn yr ail gyfnod dyrannu ar gyfer gweithfeydd sefydlog o 2026 i 2027, gan wneud 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun; a cheir darpariaeth ar gyfer cyfrifo Dyraniad am Ddim ar gyfer blwyddyn 2026 fel blwyddyn ar ei phen ei hun. Gwneir hyn drwy ddarpariaethau annibynnol yn Rhan 2 o'r offeryn hwn a thrwy welliannau i'r Prif Orchymyn⁴, Rheoliad y Dyraniadau am Ddim⁵ a'r Rheoliad Newid Lefelau Gweithgarwch⁶.

Mae'r offeryn hwn hefyd:

- a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi manylion yr holl lwfansau sy'n cael eu trosglwyddo rhwng cyfrifon yng Nghofrestrfa'r ETS bob blwyddyn, ar ôl oedi o dair blynedd. Mae hyn yn unol â safonau rhyngwladol gan gynnwys ETS yr UE. Bydd y newid hwn yn gfwneud pethau'n dryloyw ac yn ein helpu i ddadansoddi'r farchnad yn effeithiol.
- b) yn creu eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth a geir neu a ddelir o dan ddeddfwriaeth yr ETS at ddibenion penodol datblygu polisi sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Disgwylir i hyn fod yn ofynnol er enghraifft i Awdurdod yr ETS allu datgelu data i

<https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-carbon-leakage>

<https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-carbon-leakage>

³ Mae CBAMs yn fesur lliniaru ar gyfer adleoli carbon. Maent yn mynd i'r afael â risg o adleoli carbon trwy bennu pris carbon effeithiol ar gynhyrchion sy'n cael eu mwnefu i'r DU. Bydd CBAM y DU yn cael ei gynhyrso i sawl sector a ddaw o dan yr ETS.

⁴ [The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order 2020.](#)

⁵ [Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn \(EU\) 2019/331](#)

⁶ [Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn \(EU\) 2019/1842](#)

Drysorlys EF a Chyllid a Thollau EF i helpu i ddatblygu CBAM y DU a'i roi ar waith. Bydd yr Offeryn hwn hefyd yn creu eithriad er mwyn cael datgelu gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd ("CCC") i'w helpu â'i ddyletswyddau statudol; a

- c) estyn y meini prawf o ran pwy sy'n gymwys er mwyn i weithfeydd â lefelau isel o allyriadau a ddechreuodd weithredu rhwng 2 Ionawr 2021 a 1 Ionawr 2024 (cynwysedig) ofyn am gael eu categoreiddio fel gweithfeydd USE yn ystod y cyfnod 2026 – 2030. Ar hyn o bryd, dim ond gweithfeydd a ddechreuodd weithio ar neu cyn 1 Ionawr 2021 sy'n gymwys i wneud cais am statws USE ar gyfer y cyfnod 2026-2030. Busnesau bach fydd y rhain fwy na thebyg a bydd y newid hwn yn lleihau'r baich arnynt.

2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ("CCA") yn nodi bod rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy'n gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Rhagnodir gweithdrefn briodol ar gyfer gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn adran 48 o'r Ddeddf Newid Hinsawdd. Gan nad yw'r Offeryn hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau a ddaw o dan adran 48(3) o'r Ddeddf Newid Hinsawdd, mae'r weithdrefn negyddol wedi cael ei defnyddio.
- 2.2 Gan mai Senedd y DU fydd yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni fernir ei bod yn rhesymol ymarferol gwneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

3 Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Sefydlwyd yr ETS o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 gan y Prif Orchymyn. Mae'r Prif Orchymyn yn cymhwyso Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018 a Rheoliad Dilysu 2018 mewn cysylltiad â monitro, adrodd a dilysu allyriadau ynghyd â'u haddasu i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer yr ETS.
- 3.2 Cafodd y Prif Orchymyn ei ddiwygio sawl tro i wneud newidiadau technegol sy'n gwella'r ffordd y mae'r ETS yn cael ei redeg er lles cyfranogwyr a rheoleiddwyr⁷. Gwnaed y Prif Orchymyn a'r Gorchymynion

⁷Mae'r Prif Orchymyn wedi'i ddiwygio gan y Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr 2024, Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024, Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2024 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025.

diwygio hyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA. Mae'r Offeryn hwn hefyd yn cael ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

- 3.3 Gwnaed diwygiadau hefyd i'r ETS trwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Cyllid 2020⁸.

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Pwrpas yr Offeryn yw diwygio'r Prif Orchymyn a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig at y dibenion canlynol:

- caniatáu i flwyddyn cynllun 2026 gael ei thrin fel estyniad o gyfnod dyrannu 2021-2025 at ddibenion cyfrifo a dosbarthu Dyraniadau am Ddim ar gyfer gweithfeydd y cynllun.
- caniatáu newidiadau i'r ffordd y rhennir data'r ETS, o ran cyhoeddi data trafodion y Gofrestrfa a gwella'r ffordd y datblygir polisi.
- caniatáu i weithredwyr a ddechreuodd weithgaredd rheoledig rhwng 2 Ionawr 2021 a 1 Ionawr 2024 fod yn gymwys i wneud cais am statws USE.

- 4.2 Bydd newid deddfwriaeth Dyraniadau am Ddim yn golygu estyn y rheolau presennol a defnyddio'r meincnodau, CLL a rheolau eraill sydd eisoes mewn deddfwriaeth ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2025 i bennu Dyraniadau am Ddim gweithfeydd ar gyfer 2026 a'u cyfrifo gan ddefnyddio data gweithgarwch a gedwir gan reoleiddwyr ar hyn o bryd.

- 4.3 Mae'r oedi hwn yn effeithio yn unig ar weithfeydd sy'n derbyn Dyraniadau am Ddim trwy'r cynllun (sef 29 o weithfeydd yng Nghymru ym flwyddyn cynllun 2023, sef y ffigur mwyaf diweddar sydd ar gael). Fodd bynnag, ni fferir y bydd y newid hwn yn arwain at effeithiau na risgiau arwyddocaol. Hynny gan ei fod yn golygu estyn y rheolau cyfredol y mae gweithfeydd eisoes yn cadw atynt ac nad yw'n newid y rheolau hynny. Nid yw'n newid cap y cynllun na'r dyraniad am ddim sydd ar gael, felly nid yw'n effeithio ar uchelgais cyffredinol y cynllun.

- 4.4 Gall yr oedi hefyd olygu manteision ehangach gan y bydd yn caniatáu mwy o amser ar gyfer rhagor o ymgynghori a dadansoddi gyda rhanddeiliaid, cyn gwneud unrhyw newidiadau (y gobeithir eu gwneud yn 2027). Bydd yn caniatáu hefyd alinio gwell â pholisi CBAM Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd i'w roi ar waith yn 2027.

- 4.5 Bydd newid y cytundeb rhannu data yn sicrhau tryloywder gan ein helpu felly i ddadansoddi'r farchnad a datblygu polisi yn effeithiol ynghyd â chefnogi'r CCC â'i swyddogaethau statudol.

⁸Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Phlatformau Arwerthu Cydnabyddedig (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2021, a Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023..

4.6 Bydd newid y ceisiadau am statws USE yn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau bach (sef y rhai a fydd yn debygol o wneud cais).

4.7 Bydd yr Offeryn hwn yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig gyfan, a bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar weithredwyr sy'n perthyn i'r ETS (gan gynnwys diwydiant, cynhyrchwyr pŵer a hedfan). Daw i rym ar 31 Mawrth 2025.

4.8 Mae'r prif ddarpariaethau wedi'u crynhoi isod:

Rhan 2 o'r Prif Orchymyn.

4.9 Mae erthygl 4 yn ymwneud â Rhan 2 o'r Offeryn hwn ac yn darparu y rhoddir yr ystyr i "2026 incumbent" yn Rhan 2 a geir yn erthygl 5 a rhaid dehongli "type 1 2026 incumbent" yn unol ag erthygl 5. Mae'n darparu ymhellach bod "Article 4 application" yn golygu cais am ddyraniad am ddim yng nghyfnod dyrannu 2027-2030 a bod "sub-installation" yn golygu'r un peth ag yn y Rheoliad Dyraniadau am Ddim. Rhaid dehongli bod Rhan 2 o'r Offeryn yn rhan o'r Prif Orchymyn.

4.10 Mae Erthygl 5 yr offeryn hwn yn rhoi diffiniad penodol o "2026 incumbent" sef gweithfa sydd wedi dod o dan gyfnod dyrannu 2021-2015, neu sydd wedi cwblhau cam cyntaf cais ar gyfer y cyfnod ymgeisio canlynol. Mae hefyd yn diffinio "type 1 2026 incumbent", sef gweithfa sydd wedi derbyn dyraniad am ddim o dan gyfnod dyrannu 2021-2025, a "type 2 2026 incumbent", sef gweithfa nad yw wedi derbyn dyraniad am ddim o'r blaen ond sydd wedi gwneud cais am un i'w gael ym mlwyddyn dyrannu 2026.

4.11 Mae Erthygl 6 o'r Offeryn hwn yn rhoi dyletswydd ar y rheoleiddiwr i gyfrifo maint y dyraniad am ddim cychwynnol a therfynol ac i ystyried unrhyw newidiadau yn lefel gweithgarwch gweithfeydd 2026 math 1 wrth eu cyfrifo. Mae dyletswydd ar Awdurdod yr ETS i gymeradwyo nifer terfynol y lwfansau a roddir ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun gan wneud unrhyw gywiriadau i nifer y lwfansau blynyddol cychwynnol a therfynol fel y gwêl yn briodol.

4.12 Mae Erthygl 7 o'r Offeryn hwn yn rhoi dyletswydd ar y rheoleiddiwr, at ddiben gweithfeydd 2026 math 2, i benderfynu, yn unol ag Erthygl 15 o'r Rheoliad Dyraniadau am Ddim, beth yw lefel hanesyddol pob un o is-weithfeydd y weithfa ar sail yr adroddiad data llinell sylfaen a'r adroddiad dilysu a gyflwynir fel rhan o gam cyntaf cais Erthygl 4.

4.13 Mae dyletswydd hefyd ar y rheoleiddiwr i gyfrifo yn unol ag Erthyglau ac Atodiad perthnasol y Rheoliad Dyraniadau Am Ddim, nifer cychwynnol blynyddol y lwfansau sydd i'w dyrannu mewn perthynas â phob un o is-weithfeydd y weithfa ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun.

4.14 Darperir hefyd bod yn rhaid i'r rheoleiddiwr roi data penodol i Awdurdod yr ETS. Mae dyletswydd ar Awdurdod yr ETS i asesu'r dogfennau a gyflwynir fel rhan o gam cyntaf cais Erthygl 4 a hysbysu'r rheoleiddiwr a yw'r

cais yn ddilys ai peidio. Os nad yw cais yn ddilys, rhaid i'r rheoleiddiwr hysbysu'r gweithredwr a rhoi rhesymau.

- 4.15 Mae Erthygl 8 o'r Offeryn hwn yn darparu'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â'r gronfa wrth gefn hyblyg os rhoddir mwy na chap y diwydiant ym mlwyddyn 2026 y cynllun, ar gyfer gweithfeydd 2026.
- 4.16 Mae Erthygl 9 o'r Offeryn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr roi hysbysiad gwrthod os yw am wrthod ei ddyraniadau am ddim yng nghyfnod dyrannu 2026. Iddo gael effaith, rhaid rhoi hysbysiad gwrthod ar neu cyn 30 Mehefin 2025.
- 4.17 Mae Erthygl 10 o'r Offeryn hwn yn darparu ar gyfer cyfrifo dyraniadau am ddim cychwynnol ym mlwyddyn 2026 y cynllun ar gyfer gweithgynhyrchu calch a rhin brag.
- 4.18 Mae Erthygl 11 o'r Offeryn hwn yn datgan bod Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn cael ei ddiwygio gan Ran 3 o'r Gorchymyn Diwygio.
- 4.19 Mae Erthygl 12 o'r Offeryn hwn yn newid Erthygl 4 i wneud y newidiadau gofynnol i'r diffiniadau o'r cyfnod dyrannu a'r tabl dyraniadau, fel bod blwyddyn 2026 y cynllun yn flwyddyn ar ei phen ei hun, ac nad yw bellach wedi'i chynnwys yng nghyfnod dyrannu 2026-2030. Mae'n darparu hefyd bod cyfnod dyrannu 2026 yn golygu blwyddyn 2026 y cynllun a bod cyfnod dyrannu 2027-2030 yn golygu blynnyddoedd 2027-2030 y cynllun.
- 4.20 Mae Erthygl 13 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 4A i ddiweddarau ystyr gweithfa Dyraniadau am Ddim, fel bod blwyddyn 2026 y cynllun yn flwyddyn ar ei phen ei hun, ac nad yw bellach wedi'i chynnwys yng nghyfnod dyrannu 2026-2030, ac yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i adlewyrchu'r newidiadau canlyniadol i gyfnod dyrannu 2027-2030.
- 4.21 Mae erthyglau 14 a 15 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthyglau 12 ac 13 (sy'n ymwneud â gweithredwyr awyrennau) i newid dyddiadau i adlewyrchu'r ffaith y bydd 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun ac na chaiff bellach ei chynnwys yng nghyfnod dyrannu 2026-2030. Mae hynny'n golygu mai'r dyddiad perthnasol ar gyfer Erthygl 12 ac 13 bellach yw 1 Ionawr 2026. O'r blaen, dyna oedd dechrau cyfnod dyrannu 2026-2030.
- 4.22 Mae Erthygl 16 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 20 i ddileu'r cyfeiriad bod 2026-2030 yn gyfnod 'dyrannu', fel bod y cap ar lwfansau yn dal i fod yn berthnasol i gyfnod 2026-2030.
- 4.23 Mae Erthygl 17 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 23A i newid cyfeiriadau i adlewyrchu cyfnod dyrannu 2026 a chyfnod dyrannu 2027-2030 mewn cysylltiad â'r gronfa wrth gefn hyblyg. Mae'n mewnosod

cyfeiriadau hefyd at yr offeryn hwn yn y mannau angenrheidiol i sicrhau cysondeb.

- 4.24 Mae Erthygl 18 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 27A i ganiatáu newid dyddiadau'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf (sef 2026-2030 cynt ond 2027-2030 bellach). Mae hefyd yn diwygio'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth 2026', yn unol â gwneud 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun.
- 4.25 Mae Erthygl 19 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 34A i wneud newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â thablau dyraniadau, i roi 2027-2030 yn lle cyfeiriadau at 2026-2030. Mae hefyd yn darparu bod gweithfa sy'n berthnasol at ddiben ei chynnwys yn nhabl dyraniadau 2027-2030 yn cynnwys cais am ddyraniad am ddim yng nghyfnod dyrannu 2027-2030 a wnaed o dan Erthygl 4 o'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim a bod ETS wedi hysbysu'r rheoleiddiwr ei fod yn gais dilys.
- 4.26 Mae Erthygl 20 o'r Offeryn hwn yn mewnosod Erthygl 34AA (ar ôl Erthygl 34A) sy'n rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i lunio tabl dyraniadau ar gyfer cyfnod 2026 sy'n gyfnod ar ei ben ei hun. Mae Erthygl 34AA yn cynnwys manylion meini prawf cymhwysedd gweithfeydd y mae'n rhaid eu cynnwys yn y tabl, y manylion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn unrhyw gofnod a sut i gyfrifo'r dyraniad y mae gan y weithfa yr hawl iddo.
- 4.27 Mae Erthygl 21 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 34B i fewnosod cyfeiriadau at yr offeryn hwn ac at yr Erthygl 34AA newydd, yn y ddarpariaeth ar dablau dyraniadau. Hynny er mwyn sicrhau y cynhwysir y lwfansau a gymeradwyir yn unol â'r offeryn hwn yn y nifer terfynol o lwfansau blynyddol a ddyrennir i weithfa yn y tabl dyraniadau.
- 4.28 Mae Erthygl 22 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 34C i fewnosod cyfeiriad at yr offeryn hwn mewn darpariaethau sy'n diweddarau tablau dyraniadau.
- 4.29 Mae Erthygl 23 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 34D i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi tabl dyraniadau 2026 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a chyn 1 Ionawr 2026 fan bellaf. Mae hefyd yn newid cyfeiriadau at y dyddiadau iddynt adlewyrchu cyfnod dyrannu 2027-2030 a bod 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun.
- 4.30 Mae Erthygl 24 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 34H i sicrhau bod camgymeriad gan yr Awdurdod neu'r Rheoleiddiwr o dan yr offeryn hwn yn dod o dan y diffiniad o 'gamgymeriad perthnasol'. Mae Erthygl 34H yn datgan bod yn rhaid i reoleiddiwr hysbysu gweithredwr gweithfa am gamgymeriad perthnasol. Mae Erthygl 24 o'r offeryn hwn yn gwneud

diwygiadau hefyd i egluro bod 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun, ochr yn ochr â chyfnodau dyrannu 2021-2025 a 2027-2030.

- 4.31 Mae Erthygl 25 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 59 (cosbau sifil i allyryddion bach iawn sy'n allyrru mwy o allyriadau adroddadwy nag a ganiateir) i ddileu cyfeiriadau at 'gyfnodau dyrannu' yn unol â gwneud 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, ni cheir rhoi cosb o dan Erthygl 59 ond mewn perthynas â blwyddyn gyntaf y cynllun sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2021 ac sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025 neu gyfnod 2026-2030 pan fydd allyriadau adroddadwy'r weithfa yn fwy na'r uchafswm ac os bydd blwyddyn ganlynol y cynllun yn yr un cyfnod â'r flwyddyn gyntaf honno.
- 4.32 Mae Erthygl 26 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 75B i ganiatáu rhannu data at ddibenion datblygu neu weithredu polisi perthnasol gan awdurdod cenedlaethol, un o Weinidogion y Goron, neu Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, ac at ddiben cefnogi'r Pwyllgor Newid Hinsawdd i wneud ei swyddogaethau. Bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod, awdurdod cenedlaethol, y rheoleiddiwr neu weinyddwr y Gofrestrfa rannu'r data sydd ganddo at y dibenion hynny. Mae hefyd yn rhoi cyd-destun i'r diffiniad o ddatblygu polisi perthnasol a phryd y caiff hyn ddigwydd.
- 4.33 Mae Erthygl 27 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 75C i wahardd cyhoeddi gwybodaeth am drosglwyddo lwfansau pe bai cyhoeddi'r wybodaeth yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol.
- 4.34 Mae Erthygl 28 o'r Offeryn hwn yn diwygio Atodlen 3 i ddileu cyfeiriadau at 'gyfnodau dyrannu' i ddarparu mai'r ystod dyddiadau perthnasol yw 2026-2030 o hyd.
- 4.35 Mae Erthygl 29 o'r Offeryn hwn yn diwygio Atodlen 5A (paragraff 34) i roi rhagor o fanylion yr wybodaeth y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chyhoeddi am drosglwyddo lwfansau. Mae hefyd yn cadarnhau bod y gofyniad hwn yn dod o dan Erthygl 75C (diogelwch cenedlaethol).
- 4.36 Mae Erthygl 30 o'r Offeryn hwn yn diwygio Atodlen 6 i ddileu cyfeiriadau at 'gyfnodau dyrannu' i ddarparu mai'r ystod dyddiadau perthnasol ar gyfer paragraff 8(3)(b)(iv) yw 2026-2030 o hyd.
- 4.37 Mae Erthygl 31 o'r Offeryn hwn [OBJ] yn newid cyfeiriadau at gyfnod dyrannu 2026-2030 i gyfnod 2026-2030. Effaith hynny yw cadw'r ystod dyddiadau fel y mae trwy gynnwys cyfnod 2026 fel cyfnod ar ei ben ei hun[OBJ]. Mae hefyd yn newid y gofyn ar y rheoleiddiwr wrth ddelio â cheisiadau i gynyddu targedau allyriadau ar gyfer blynyddoedd y cynllun yn ystod cyfnod dyrannu 2027-2030.

4.38 Mae Erthygl 32 o'r Offeryn hwn yn diwygio Atodlen 8 mewn cysylltiad â statws USE. Mae'n diweddarau cyfeiriadau at gyfnod *dyrannu* 2026-2030 i gyfnod 2026-2030 yn unig. Effaith hynny yw cadw'r ystod dyddiadau yn ddigyfnewid trwy gynnwys y cyfnod 2026 fel cyfnod ar ei ben ei hun. Mae Erthygl 32 hefyd yn diweddarau'r amodau perthnasol ar gyfer cael statws USE ar gyfer cyfnod 2026-2030 i ganiatáu i weithredwyr a ddechreuodd weithgarwch rheoledig rhwng 2021 a 2024 wneud cais am statws USE yn y cyfnod 2026 - 2030. Mae'n mewnosod paragraff 7A i ddarparu bod gweithredwr USE yn cael dewis gollwng statws USE yng nghyfnod dyrannu 2027-2030. Rhaid i'r weithfa hysbysu'r rheoleiddiwr ar neu cyn 30 Mehefin 2026 nad yw am hawlio statws USE; yn ei dro rhaid i'r rheoleiddiwr, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r gweithredwr i gadarnhau nad oes ganddo statws USE mwyach (cyn belled â bod Awdurdod ETS yn rhoi cadarnhad i'r rheoleiddiwr).

Newidiadau i'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim

4.39 Mae Erthygl 33 yn datgan bod Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 wedi'i ddiwygio yn unol â Rhan 4 o'r Offeryn hwn.

4.40 Mae Erthygl 34 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 2 i roi 2027-2030 yn lle cyfeiriadau at 2026-2030 yn y diffiniadau o "incumbent installation", a chyfnod y llinell sylfaenol. Mae hefyd yn sicrhau bod cyfeiriadau o fewn y Rheoliad at feincnodau ar gyfer cyfnod dyrannu yn gyfeiriadau at y meincnodau a nodir yn Atodiad 8 (fel y'i diweddarir gan yr offeryn hwn).

4.41 Mae Erthygl 35 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 2a i roi cyfnod dyrannu 2027-2030 yn lle cyfnod dyrannu 2026-2030 ac mae'n mewnosod cyfeiriadau at yr offeryn hwn lle bo angen ynghylch cymhwysedd am Dyraniadau am Ddim. Mae Erthygl 35 yn gwneud newidiadau hefyd i adlewyrchu'r ffaith y bydd dau gam i gais o dan Erthygl 4 o'r Rheoliad Dyraniadau am Ddim (fel y'i diwygir gan yr offeryn hwn).

4.42 Mae Erthygl 36 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 2b i roi cyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030 yn lle cyfeiriadau at gyfnod *dyrannu* 2026-2030 ac i fewnosod cyfeiriadau at yr offeryn hwn lle bo'n berthnasol ynghylch Dyraniadau am Ddim yng nghyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030. Mae Erthygl 36 hefyd yn gwneud newidiadau hefyd i adlewyrchu'r ffaith y bydd dau gam i gais o dan Erthygl 4 o'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim (fel y'i diwygir gan yr offeryn hwn) i adlewyrchu'r ffaith bod 2026 bellach yn flwyddyn ar ei phen ei hun.

4.43 Mae Erthygl 37 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 2c i roi cyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030 yn lle cyfeiriadau at gyfnod dyrannu 2026-2030 mewn cysylltiad ag ystyr generadur trydan a thrydan Gwres a Phwer Cyfun perthnasol.

- 4.44 Mae Erthygl 38 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 4 i roi cyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030 yn lle cyfeiriadau at gyfnod dyrannu 2026-2030 mewn cysylltiad â cheisiadau gan weithfeydd am Ddyraniadau am Ddim. Mae'n egluro'r broses ymgeisio a fydd â dau gam a dau amser yn sgil gwahanu 2026 fel blwyddyn ar ei phen ei hun. Mae Erthygl 38 yn gwneud darpariaeth hefyd mewn cysylltiad â'r broses ymgeisio ar gyfer gweithredwyr gweithfeydd sydd â statws USE neu HSE ar gyfer 2026-2030.
- 4.45 Mae Erthygl 39 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 5 i roi cyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030 yn lle cyfeiriadau at 2026-2030 yn y ddarpariaeth am newydd-ddyfodiaid sy'n ymgeisio am Ddyraniadau am Ddim.
- 4.46 Mae Erthygl 40 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 8 i newid paragraff 7(a) i ddiwygio'r dyddiadau y mae'n rhaid rhoi hysbysiadau (mewn cysylltiad â gweithredwr sydd wedi cyflwyno cynllun methodoleg monitro i'r rheoleiddiwr). Mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau i gyfnod dyrannu 2027-2030 a chynnwys 2026 fel blwyddyn ar ei phen ei hun.
- 4.47 Mae Erthygl 41 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 15a i ganiatáu newid y cyfnod dyrannu o 2026-2030 i 2027-2030. Mae Erthygl 41 yn gwneud diwygiadau fel bod Erthygl 15A yn gymwys pan wneir dau gam y cais am ddyraniadau am ddim o fewn cyfnod dyrannu 2027-2030.
- 4.48 Mae Erthygl 42 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 16 i roi 2027-2030 drwyddi draw yn lle'r cyfeiriadau at 2026 – 2030. Mae'n dileu cyfeiriadau at feincnodau'r cyfnodau dyrannu presennol gan nad ydynt bellach yn gywir. Mae Erthygl 42 hefyd yn mewnosod diffiniad newydd o "relevant allocation period" yn Erthyglau 16 ac 19 i 22 i adlewyrchu y bydd 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun.
- 4.49 Mae Erthygl 43 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 16a i sicrhau dim ond i gyfnod dyrannu newydd 2027-2030 y mae ffactorau cywiro traws-sectoraidd yn berthnasol ac nad ydynt yn berthnasol i 2026 sy'n flwyddyn ar ei phen ei hun. Mae Erthygl 43 yn gwneud darpariaeth hefyd i sicrhau, os bydd cap y diwydiant ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun yn fwy na chyfanswm terfynol y lwfansau a gymeradwyir o dan yr offeryn hwn i'w dyrannu i bob gweithfa ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun, cynyddir cap y diwydiant ar gyfer blwyddyn 2027 y cynllun yn unol â'r gwahaniaeth. Yna mae Erthygl 43 yn diweddarau'r diffiniad o "installation" at ddibenion Erthyglau 16a ac 16b i adlewyrchu'r broses ymgeisio dau gam yn Erthygl 4 (pan gaiff ei diwygio gan yr offeryn hwn) yn benodol gan ei bod yn ymwneud â gweithfeydd sydd â statws HSE neu USE ond nad ydynt bellach am gael y statws hwnnw.

- 4.50 Mae Erthygl 44 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 16b i roi '2027-2030' yn lle cyfeiriadau at '2026-2030'.
- 4.51 Mae Erthygl 45 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 18 i roi 'relevant allocation period' yn lle cyfeiriadau at 'relevant period' a diweddarau yn sgil hynny gyfeiriadau at y 'benchmark for the relevant period', a rhoi 'benchmark of the relevant allocation period' yn eu lle. Mae hefyd yn diweddarau, at ddibenion Erthyglau 18, 18b ac 19 i 22, y diffiniad o 'relevant allocation period' i adlewyrchu'r ffaith y bydd 2026 yn flwyddyn ar ei phen ei hun, ac mai 2027 - 2030 fydd y cyfnod dyrannu wedi hynny.
- 4.52 Mae Erthygl 46 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 24 i roi yn lle paragraff 2 eglurhad o'r dyddiadau erbyn pryd y caiff gweithredwr roi hysbysiad ei fod yn gwrthod lwfansau Dyraniadau am Ddim, i adlewyrchu cyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030.
- 4.53 Mae Erthygl 47 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 25 ynghylch trosglwyddo trwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn ei diweddarau i ddweud bod yn rhaid i reoleiddydd roi hysbysiad i weithredwr pob gweithfa newydd i ystyried 2026 fel blwyddyn ar ei phen ei hun. Mae'n diwygio'r diffiniad o "relevant allocation period" i ystyried 2026 fel blwyddyn ar ei phen ei hun a chyfnod dyrannu 2026-2023 ac mae'n rhoi diffiniadau gyda dyddiadau penodol o "incumbent installation".
- 4.54 Mae Erthygl 48 o'r Offeryn hwn yn diwygio adran 4.2 o Atodiad 7 i roi '2027-2030 allocation period' yn lle'r cyfeiriadau at gyfnod dyrannu '2026-2030' mewn cysylltiad â dulliau monitro data.
- 4.55 Mae Erthygl 49 o'r Offeryn hwn yn diwygio pob tabl yn Atodiad 8 i adlewyrchu'r ffaith bod blwyddyn 2026 y cynllun yn flwyddyn ar ei phen ei hun yn y darpariaethau sy'n ymwneud â meincnodau.

Newidiadau i'r Rheoliadau Newid Lefelau Gweithgarwch

- 4.56 Mae Erthygl 50 yn datgan bod Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 wedi'i ddiwygio yn unol â Rhan 5 o'r Gorchymyn diwygio.
- 4.57 Mae Erthygl 51 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 3 i fewnosod y gofyn ar weithredwyr, wrth gyflwyno eu hadroddiad blynyddol ar lefel gweithgarwch pob is-weithfa yn y flwyddyn galendr flaenorol, i ddarparu data ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol yn 2027 os nad oedd gofyn iddynt gyflwyno adroddiad yn 2026.
- 4.58 Mae Erthygl 52 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 3a i fewnosod cyfeiriadau at yr offeryn hwn, a rhoi paragraff 4 newydd i ddiwygio'r diffiniad o 'relevant allocation period' i adlewyrchu gwahanu cyfnodau dyrannu 2026 a 2027-2030.

- 4.59 Mae Erthygl 53 o'r Offeryn hwn yn diwygio Erthygl 5 drwy fewnosod paragraff 2a. Mae hyn yn egluro, mewn cysylltiad â newidiadau i'r Dyraniadau am Ddim oherwydd newidiadau yn y lefelau gweithgarwch, bod rhaid darllen unrhyw gyfeiriad ym mharagraff 2 at "allocation period" fel cyfeiriad at y cyfnod sy'n cynnwys cyfnod dyrannu 2021-2025 a chyfnod dyrannu 2026.

5 Ymgynghori

- 5.1 Cyn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael ac ystyried cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (adran 48(1)(a) CCA). Mae hefyd yn ofynnol iddynt ymgynghori fel y gwelant yn dda â'r bobl hynny y bydd y ddeddfwriaeth ddrafft yn effeithio arnynt (adran 48(1)(b) CCA).
- 5.2 O ran yr oedi cyn cyflwyno rheolau newydd y Dyraniadau am Ddim, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori pythefnos o hyd rhwng 26 Medi 2024 a 11 Hydref 2024. Holwyd y gweithredwyr yr effeithiwyd arnynt trwy reoleiddwyr.
- 5.3 Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r oedi arfaethedig o'i blaid, a'r rheswm pennaf oedd y gallu i ystyried alinio'r newidiadau i Ddyraniadau am Ddim â chyflwyno CBAM y DU.
- 5.4 O ran y diwygiadau technegol a gweithredol arfaethedig ynghylch rhannu data a'r cynllun USE, cynhaliwyd ymgynghoriad tair wythnos o hyd rhwng 24 Medi 2024 a 15 Hydref 2024. Holwyd y gweithredwyr yr effeithiwyd arnynt trwy reoleiddwyr.
- 5.5 Roedd yr ymatebion i'r diwygiadau arfaethedig ynghylch rhannu data'r gofrestrfa wedi'u rhannu'n gyfartal, felly awgrymwyd gwelliant i ymateb i'r pryderon ynghylch sensitifrwydd data masnachol. O ran y cynigion eraill ynghylch datgelu gwybodaeth yr ETS gan awdurdod cenedlaethol a'r newidiadau i gymhwyster am statws USE, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid. Cafwyd ychydig o anghytuno ynghylch a oedd cytundeb i beidio â datgelu yn ddigon i ddiogelu gwybodaeth yr ETS. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn ei gwneud yn glir y bydd bar uchel ar gyfer rhannu data a defnyddir prosesau eraill megis anonymeiddio data lle bo hynny'n briodol.

6 Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

- 6.1 Er bod yr Offeryn hwn yn gwneud mân newidiadau i'r ddeddfwriaeth, nid yw'r newidiadau hynny'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae'r oedi i newid y polisi ar Ddyraniadau am Ddim yn golygu yn unig bod y rheolau presennol yn para am flwyddyn ychwanegol, a bod y newidiadau i rannu data yn golygu rhannu at ddibenion datblygu polisi yn unig. Bach iawn iawn, os o gwbl, yw'r costau a'r arbedion i'r sectorau cyhoeddus, preifat,

elusennol neu wirfoddol o ganlyniad i'r diwygiadau hyn. Mae'r cynllun HSE a USE yn newid y gofynion cymhwysedd er mwyn caniatáu i weithredwyr a ddechreuodd weithredu rhwng 2 Ionawr 2021 a 1 Ionawr 2024 wneud cais. Fodd bynnag, nid yw'n golygu newid arwyddocaol i'r polisi ei hun. Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

6.2 Dylid nodi hefyd nad yw'r cynigion wedi newid lefel gyffredinol yr uchelgais o ran yr hinsawdd yn yr ETS.